

Argymhellion Craffu Newid Hinsawdd, Amgylchedd, a Seilwaith 2023 – ymateb CNC

Argymhelliad 1.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru rannu gyda'r Pwyllgor y cytundebau lefel gwasanaeth manwl y mae wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl. Dylai gyhoeddi crynodebau lefel uchel o'r cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw.

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, mae ein timau wedi paratoi deg dogfen lefel gwasanaeth yn ymwneud â'r canlynol:

- Rheoli perygl llifogydd
- Ystad CNC (gan gynnwys yr ystad goetir)
- Rheoli digwyddiadau llygredd
- Gorfodi
- Ansawdd dŵr
- Galluogi plannu coed
- Monitro dŵr croyw
- Monitro morol
- Monitro daearol
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu hariannu gan gyfuniad o ffrydiau ariannu (llifogydd, di-llifogydd, ffioedd ac incwm masnachol) ac maent yn cyfrif am 25% o gymorth grant heblaw llifogydd.

Mae'r dogfennau'n dilyn templed cyffredin ac yn disgrifio'r gwasanaeth, gan nodi'r cwmpas, amcanion, eithriadau, a metrigau allbwn a mewnbwn (£ ac fte – cyfwerth ag amser llawn) ac yna symud ymlaen i ddisgrifio tri opsiwn:

- Gwasanaeth presennol (fel yr adlewyrchir yng Nghynllun Busnes Blynyddol CNC 2022/23)
- Llai o wasanaeth
- Gwell gwasanaeth

Mae dewisiadau clir i'w gwneud ac, i gynorthwyo'r broses hon, mae swyddogion polisi o CNC, gan weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi argymhell un opsiwn sydd, yn eu barn nhw, yn cynrychioli eu dealltwriaeth gyffredin o'r gwasanaeth sydd ei angen i fodloni ein gofynion deddfwriaethol a'n dyletswyddau presennol yn ogystal ag ymrwymadau penodol yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru. Wrth nodi'r lefelau gwasanaeth hyn a argymhellir, canolbwyntiodd swyddogion ar y lefelau gwasanaeth a bodloni ein gofynion statudol yn hytrach nag ar y costau ariannol penodol neu'r manteision posibl y gellid eu gwireddu drwy'r cynigion buddsoddi i arbed.

Mae tabl sy'n crynhoi'r cytundebau lefel gwasanaeth wedi'i gynnwys gyda phhecyn sleidiau sy'n crynhoi'r gwahanol opsiynau ac argymhellion ar gyfer pob gwasanaeth. Nid yw'r dogfennau lefel gwasanaeth hyn yn sefydlog a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn seiliedig ar adborth gan randdeiliaid i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion sy'n datblygu. Cynigiwn ein hymddiheuriadau bod yr atodiad hwn yn Saesneg yn unig ar hyn o

bryd. Mae'r lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt wedi llywio ein cynllun busnes ar gyfer 2023/24.

Oherwydd natur gymhleth yr ymarfer, byddem yn croesawu'n fawr y cyfle cynnar i drafod hyn ag aelodau'r pwyllgor a thîm Ymchwil y Senedd i'ch helpu i ddeall y rhyngddibyniaethau ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Argymhelliad 2.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru sefydlu proses fonitro a gwerthuso ar gyfer eu cytundebau lefel gwasanaeth. Dylai'r broses hon gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid a diweddariadau rheolaidd i'r pwyllgor ar sut mae'r cytundebau lefel gwasanaeth yn parhau i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau esblygol y ddau barti.

Bydd ein gwaith o fonitro a gwerthuso'r cytundebau lefel gwasanaeth yn tynnu ar dystiolaeth a mewnwediadau gan ein sianeli adborth gan rhanddeiliaid a chwsmeriaid, gan gynnwys ein hymgyngoriadau, ein prosesau cwynion a chanmoliaeth, ein gwaith eiriolaeth gyda rhanddeiliaid strategol, a'n hymgysylltiad ehangach â dinasyddion Cymru drwy ein sgwrs genedlaethol 'Natur a Ni', i lywio ein trafodaethau â Llywodraeth Cymru ar y cytundebau lefel gwasanaeth presennol ac unrhyw gytundebau â nhw yn y dyfodol.

Fel rhan o'n ffocws ar wella ein gwasanaeth i'n cwsmeriaid, rydym wedi adolygu ein polisi a gweithdrefnau cwyno – mae bellach yn gyflymach ac yn haws i gwsmeriaid roi adborth a gallwn fesur gweithrediad argymhellion i wella gwasanaethau'n effeithiol.

Yn unol ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, rydym wedi symleiddio ein proses gwyno a lleihau ein cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer cwynion Cam 1 o 20 diwrnod gwaith i 10 diwrnod gwaith, gan ganolbwyntio ar wraidd y gŵyn a datrys y mater ar y pwynt cyswllt cyntaf. Mae cwynion Cam 2 wedi'u ffurfioli yn canolbwyntio mwy ar y cwsmer, ac rydym yn cymryd ymagwedd gymesur, gan sicrhau eu bod yn cael eu datrys yn effeithiol ac yn gyflym o fewn 20 diwrnod gwaith a nodi mesurau lliniaru i osgoi cwynion ailadroddus. Rydym yn agored ac yn dryloyw mewn perthynas â pherfformiad cwynion ac yn darparu gwybodaeth lefel gwasanaeth chwarterol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddir ar ei wefan.

Yn ystod 2022/23, ymatebwyd i 98% o gwynion Cam 1 a 90% o gwynion Cam 2 o fewn 20 diwrnod gwaith, o gymharu ag 88% o gwynion Cam 1 ac 11% o gwynion Cam 2 yn ystod 2021/22. Rydym yn gwrando'n astud ar ein cwsmeriaid ac yn ceisio adborth gan sefydliadau cymheiriaid, i sicrhau ein bod yn parhau i ymateb i gwynion yn effeithiol ac yn dysgu gwersi sy'n ein helpu i wella ein gwasanaethau fel sefydliad.

Gan ddefnyddio adborth a mewnwediad, rydym wedi gwella ein prosesau a gweithdrefnau mynediad at wybodaeth i sicrhau bod cwsmeriaid a rhanddeiliaid yn cael ymatebion amserol, cywir a hawdd eu deall i'w ceisiadau am wybodaeth. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am y ceisiadau a gawn ar ein gwefan, i ddangos didwylledd a thryloywder. Yn ystod 2022/23, ymatebwyd i 92% o geisiadau o fewn 20 diwrnod gwaith, o gymharu â 76% yn 2021/22.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gallu i wrando ar gwsmeriaid drwy hyrwyddo mapiau teithiau cwsmeriaid fel ein hymagwedd gwelliant parhaus at wasanaethau. Mae cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad wedi mynychu hyfforddiant rhagarweiniol mewnol ac rydym yn parhau i rymuso a galluogi sylw i gwsmeriaid trwy ein rhwydwaith o ymarferwyr sy'n gydweithwyr.

Argymhelliad 3.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu diweddariadau rheolaidd ar y canlyniadau mesuradwy a'r cerrig milltir a gyflawnwyd o dan y rhaglen Adfywio/Adnewyddu ac amlinellu targedau'r dyfodol.

Ers sefydlu'r rhaglen, rydym wedi darparu diweddariadau blynyddol ar ein gwaith Adfywio fel rhan o'n tystiolaeth ysgrifenedig cyn ein sesiynau craffu blynyddol gyda'r pwyllgor.

Bydd yr uchelgais o sicrhau arbedion ariannol ac allyriadau yn cael ei wireddu dros nifer o flynyddoedd gan fod y rhaglen hon yn cyflwyno newidiadau sylweddol i'r ffordd yr ydym yn gweithio, a bydd angen buddsoddiad sylweddol ymlaen llaw. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn sganio'r gorwel ar gyfer arferion gorau fel bod yr hyn rydym yn buddsoddi ynddo nawr yn addas i'r diben yng nghyd-destun ein hamcanion llesiant a'r argyfyngau natur a hinsawdd ehangach.

Mae perfformiad y rhaglen yn cael ei adrodd yn chwarterol fel rhan o reoli perfformiad ein cynllun busnes. Mae'r dangosfyrddau hyn ar gael yn gyhoeddus fel rhan o'n papurau bwrdd cyhoeddus ar ein gwefan.

Argymhelliad 4.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio â sefydliadau academiaidd a phartneriaid mewn diwydiant i ddatblygu mentrau meithrin gallu a hyfforddi wedi'u targedu, megis interniaethau, prentisiaethau, a chysiau arbenigol, i fynd i'r afael â'r bwch sgiliau mewn meysydd hollbwysig. Dylai CNC osod amserlen ar gyfer gweithredu'r mentrau hyn ac ymgynghori â rhanddeiliaid i sicrhau eu heffeithiolrwydd wrth recriwtio a chadw staff arbenigol.

Mae ymagwedd CNC at lleoliadau wedi'i nodi yn ein polisi a'n gweithdrefn ar gyfer lleoliadau. Dyma'r fframwaith ar gyfer recriwtio, cydgysylltu, cefnogi a gweithredu pob lleoliad. Fel sefydliad, rydym yn ymrwymedig i helpu i ddatblygu gweithlu medrus ar gyfer Cymru. Credwn fod lleoliadau yn rhoi cyfle i bobl ennill sgiliau gwerthfawr a rhannu profiad ac arbenigedd wrth hefyd wneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant ein busnes.

Datblygwyd y fframwaith gyda chynghor gan undebau llafur a chynrychiolwyr cyfreithiol ac mae'n tynnu ar ymchwil gynhwysfawr i'r hyn y mae sefydliadau eraill yn ei gynnig. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys saith llinyn wedi'u rhannu'n lleoliadau â thâl a lleoliadau di-dâl:

- **Prentisiaethau (â thâl)** – Lleoliad hirdymor o hyd at 100 wythnos gydag amser astudio penodedig (diwrnodau neu flociau astudio).
- **Lleoliadau â thâl gyda chyllid allanol (â thâl)** – Yn dibynnu ar feini prawf y cynllun ariannu.
- **Lleoliad addysg uwch (â thâl)** – Lleoliad hirdymor o hyd at 100 wythnos.

- **Lleoliad gwaith (di-dâl)** - Lleoliad tymor byr am hyd at chwe wythnos neu 30 diwrnod.
- **Lleoliad ymchwil (di-dâl/cyfraniad)** - Lleoliad tymor byr am hyd at chwe wythnos neu 30 diwrnod, neu leoliad tymor hir o chwe wythnos neu fwy, hyd at 12 mis.
- **Lleoliad profiad gwaith i fyfyrwyr (di-dâl)**- Lleoliad tymor byr am hyd at chwe wythnos neu 30 diwrnod.
- **Lleoliad gwirfoddolwyr CNC (di-dâl)** – Yn dibynnu ar y cyfleoedd ar gyfer lleoliadau sydd ar gael a'r rhaglen waith. Mae angen adolygiad blynyddol ar unrhyw gyfle sy'n hwy na 12 mis.

Mae'r cyfleoedd hyn ynghyd â'n rhaglen addysg a dysgu (hyfforddiant addysgwyr, adnoddau, cymorth i leoliadau sy'n gysylltiedig â gyrfaedd a'r byd gwaith, cysylltiadau â Gyrfa Cymru a chngor gyrfa) yn darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer llwybrau i gyflogaeth i CNC a'r sector ehangach.

Er mwyn lleihau risg a mwyafu cyfleoedd, mae'r holl leoliadau a gynigir gan CNC yn cael eu gweinyddu yn unol â pholisi a gweithdrefn ar gyfer lleoliadau. Mae'r rhain wedi'u cynllunio i gydymffurfio â'r holl bolisiau a gweithdrefnau, cyngor cyfreithiol, arferion llywodraethu ac arferion gorau perthnasol o fewn CNC. Mae gennym hefyd grŵp llywio amlddisgyblaethol ar gyfer lleoliadau sydd wedi'i hen sefydlu a chymuned ymarfer sy'n tyfu.

Mae nifer o egwyddorion yn sail i'n hymagwedd at leoliadau. Mae pob lleoliad yn cael ei hysbysebu i sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac nid yw lleoliadau yn cymryd lle staff cyflogedig nac yn cael eu defnyddio i ddisodli swydd gyflogedig bresennol. Mae lleoliadau â thâl yn cael eu talu yn unol â'n hymrwymiaadau fel cyflogwr cyflog byw gwirioneddol.

Darperir tabl o ddetholiad o gyfleoedd presennol ac yn y gorffennol o dan yr amrywiol linyddau yn Atodiad 1. Mae hwn yn rhoi cipolwg, a gellir darparu mwy o fanylion os oes angen.

Mae CNC yn cydnabod y rôl hanfodol y gall lleoliadau ei chwarae wrth helpu i ddenu, datblygu a chadw pobl sydd â'r sgiliau, y galluoedd, yr ymrwymiad a'r ymddygiadau cywir sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant y sefydliad heddiw ac yn y dyfodol. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r sector amgylcheddol ehangach i ddarparu cyfleoedd i sicrhau gweithlu sydd â'r gallu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae dull cynllunio gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i lywio datblygiad fframwaith rheoli talent, y mae lleoliadau yn rhan hanfodol ohono. Daw'r prosiect hwn i ben ym mis Ebrill 2024.

Rydym wedi bwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu a gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru ac yn parhau i wneud hynny. Rydym mewn cysylltiad cyson â CBAC a Chymwysterau Cymru ac yn gobeithio eistedd ar y Bwrdd Cynghori ar gyfer nifer o bynciau fel rhan o'r gwaith o ddatblygu cymwysterau TGAU ar gyfer pobl ifanc 14+ (yn aros am benderfyniad ar ein cais) a hynny er mwyn dylanwadu ar gynnwys y pwnc.

Argymhelliad 5.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am gynnydd ei Adolygiad Strategol o Godi Taliadau a'r cynigion ar gyfer cynnydd mewn taliadau/ffioedd.

Mae'r adolygiad wedi'i gwblhau ac mae'r taliadau diwygiedig a gymeradwywyd gan y Gweinidog wedi dod i rym o 1 Gorffennaf. Mae hyn yn cynnwys taliadau newydd ar gyfer ceisiadau am ansawdd dŵr, gwastraff, adnoddau dŵr, rheoleiddio diwydiant, trwyddedu rhywogaethau, a cheisiadau diogelwch cronfeydd dŵr.

Mae cynnydd o 6% mewn taliadau parhau wedi'i gymeradwyo o 1 Ebrill ar gyfer ansawdd dŵr, adnoddau dŵr, Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH), masnachu allyriadau, ceisiadau perygl llifogydd, sylweddau ymbelydrol anniwclear, cydymffurfedd cronfeydd dŵr, a chyfleusterau ailgylchu deunyddiau.

Argymhelliad 6.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gynnwys gwybodaeth yn ei gyngor i'r Gweinidog am oblygiadau ariannol ei newidiadau arfaethedig i daliadau/ffioedd ar ymgeiswyr unigol.

Mae hon eisoes wedi'i hanfon at y Gweinidog fel rhan o'n pecyn cyngor wrth ofyn am gymeradwyaeth weinidogol.

Argymhelliad 7.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu adroddiad cryno i'r pwyllgor ar y prif heriau o ran sicrhau statws da i bob corff dŵr erbyn 2027 ac amlinellu ei gynlluniau i'w goresgyn. Dylai'r adroddiad hwn hefyd gynnwys dull CNC o sicrhau bod y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn cael eu gweithredu a'u hadolygu'n amserol.

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd diweddaraf ar gyfer ardal basnau afonydd Gorllewin Cymru ac ardal basn Afon Dyfrdwy, a'r rhan Gymreig o ardal basn drawsffiniol Afon Hafren, ynghyd â'u crynodebau, i'w gweld ar ein gwefan: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd 2021–2027](#).

Mae'r rhain yn cael eu diweddarau bob chwe blynedd ac yn gosod y cyfeiriad ar gyfer sut y byddwn yn rheoli, diogelu a gwella ein hamgylchedd dŵr yng Nghymru. Mae ein hafonydd, llynnoedd, gwlyptiroedd, dyfroedd daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol – gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd gwarchoddedig – i gyd yn dod o dan y cynlluniau hyn. Trwy'r broses hon, datblygwn ddealltwriaeth fanwl ynghylch cyflwr ein hamgylchedd dŵr, y pwysau sydd arno, a pha fesurau sydd eu hangen i'w wella a'i warchod trwy ddefnyddio tystiolaeth bresennol a newydd.

Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yn manylu ar y gwelliannau sydd wedi'u gwneud dros y cylch chwe blynedd diwethaf, ac yn amlinellu'r gwelliannau pellach sydd eu hangen i atal difrod pellach i'n dyfroedd. Rydym wedi nodi deg dalgylch cyfle lle byddwn yn canolbwyntio adnoddau staff ar draws swyddogaethau CNC i gefnogi partneriaid i ddarparu atebion rheoli dalgylch integredig.

Credwn y dylai'r cynlluniau manwl a'r crynodebau ar ein gwefan fod yn ddigon i ateb cwestiynau'r aelod o'r pwyllgor, ond os oes unrhyw gwestiynau heb eu hateb, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Argymhelliad 8.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu'n rheolaidd pa mor ddigonol yw lefelau staffio ac adnoddau ar gyfer gorfodi rheoliadau llygredd amaethyddol ac adrodd ar ei

ganfyddiadau. Dylai CNC hefyd gryfhau trefniadau cydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr a sefydliadau amaethyddol, i hyrwyddo arferion cynaliadwy sy'n lleihau llygredd.

Mae cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol yn cynnwys gofyniad i gyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru ar gynnydd ein cydymffurfedd a gwaith gorfodi, a bydd hyn yn cynnwys asesiad o lefelau cyflawni gyda staff a ariennir gan y cytundeb lefel gwasanaeth. Mae CNC wedi ymrwymo i ddiweddarau aelodaeth is-grŵp llygredd amaethyddol Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bydd cydweithio â rhanddeiliaid, gan gynnwys ffermwyr a sefydliadau amaethyddol, yn rhan o rôl y Swyddog Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol sydd newydd ei recriwtio.

Argymhelliad 9.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddangos cynnydd o ran dod â gorlifoedd storm nas caniateir o fewn y gyfundrefn reoleiddio a chyflymu'r adolygiad o'r canllawiau ar ddsbarthu gorlifoedd storm. Yn ogystal, dylai CNC barhau i weithio'n agos gyda chwmnïau dŵr i wella seilwaith a lleihau amlder ac effaith gorlifoedd carthffosydd. Dylai CNC adrodd ar gynnydd chwe mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Yn dilyn ein diweddiariad i'r pwyllgor ym mis Rhagfyr, rydym i fod i ryddhau ein canllawiau ar ddsbarthu gorlifoedd storm ar gyfer gorlifoedd storm sydd wedi'u trwyddedu yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd hyn yn nodi ein disgwyladau ar gyfer cydymffurfio, a bydd yn sicrhau y gallwn symud ymlaen â'r gofynion trwyddedu ar gyfer gorlifoedd nas caniateir a'r gorlifoedd hynny sy'n is-safonol ac yn anfoddhaol ar hyn o bryd.

Byddwn yn sicrhau bod y pwyllgor yn cael copi o'r canllawiau hyn pan fyddant ar gael.

Argymhelliad 10.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi rhagor o fanylion am gynnydd ac effeithiolrwydd y prosiect afonydd ACA a'r cyfrifiannell maethynnau cenedlaethol. Dylai CNC hefyd ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid i ddatblygu a gweithredu atebion ar raddfa dalgylch ar gyfer rheoli maethynnau.

Cynllun gweithredu'r Prif Weinidog, 'Lleihau Pwysau ar Ddalgylchoedd Afonydd Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC) i Helpu i Gyflenwi Tai Fforddiadwy', yn alluogwr allweddol ar gyfer y gwaith hwn. Mae'n cynnwys nifer o gamau gweithredu ar gyfer CNC a sefydliadau eraill.

Yn 2021, sefydlodd CNC brosiect afonydd ACA mewnol i ddarparu trosolwg strategol a gwaith cydgysylltu ar draws chwe ffrwd waith. Mae'r ffrydiau gwaith yn cynnwys blaenoriaethau mewn perthynas â'n dyletswyddau statudol yn ogystal â'r tasgau penodol hynny gan CNC sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Prif Weinidog.

Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys datblygu Cyfrifiannell Maethynnau Cymru Gyfan. Cynhyrnodd CNC y fanyleb ar gyfer y gwaith hwn, sydd bellach wedi'i gaffael gan Lywodraeth Cymru. Mae CNC yn aelod o'r grŵp llywio a bydd yn ymwneud â phrofi'r gyfrifiannell.

Mae CNC hefyd wedi ymrwymo i adolygu trwyddedau ar gyfer trwyddedau gollwng dŵr o 20m3 y dydd neu fwy mewn afonydd ACA.

Mae CNC yn aelod o bob un o'r Byrddau Rheoli Maethynnau, lle bydd rhanddeiliaid a chymunedau'n cymryd rhan mewn trafodaethau, yn enwedig mewn perthynas ag atebion ar sail natur ar raddfa dalgylch ar gyfer rheoli maethynnau. Mae CNC hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o ddarparu cronfa ddata, gan nodi prosiectau sy'n cael eu datblygu neu eu cwblhau fel bod tystiolaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol, er mwyn nodi'r gwersi a ddysgwyd a deall effeithiolrwydd gwahanol ddulliau. Mae CNC hefyd yn archwilio pa mor dderbyniol yw data gwyddoniaeth dinasyddion wrth wneud penderfyniadau.

Darperir adroddiadau cynnydd i grŵp llygredd afonydd yr ACA, a arweinir gan y Gweinidog, yn ogystal â thrwy Adroddiad Perfformiad Cynllun Busnes Blyneddol CNC.

Argymhelliad 11.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau â'i waith gyda'r Tasglu Gwell Ansawdd Afonydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am hynt cynlluniau gweithredu.

Mae cadeirydd CNC, Syr David Henshaw, yn parhau i gadeirio'r Tasglu Gwell Ansawdd Afonydd a rhoddodd ddiweddariad i'r pwyllgor ar gynnydd yn erbyn yr argymhellion a nodwyd yn sesiwn y pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022.

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn camau gweithredu CNC ar y pum cynllun gweithredu ar gyfer gorlifoedd storm, a disgwylir cyhoeddi canllawiau cyn bo hir.

Argymhelliad 12.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gyflymu'r gwaith o ddatblygu a phrofi meini prawf ar gyfer dyfroedd ymdrochi mewndirol a darparu amserlen glir ar gyfer eu gweithredu. Dylai CNC hefyd ymgysylltu ag awdurdodau lleol a sefydliadau twristiaeth i hyrwyddo defnydd cyfrifol o ddyfroedd mewndirol ar gyfer hamdden.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 Llywodraeth Cymru yn gwneud ymrwymiad i "Dechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau'r gwaith o fonitro ansawdd dŵr." Mae CNC wedi ymrwymo i gefnogi'r uchelgais hwn ac yn croesawu cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu grŵp prosiect ac i gwmpasu cynllun prosiect i'w gyflawni.

Mae'r prosiect yn debygol o gynnwys nodi safleoedd dŵr croyw a ddefnyddir gan y cyhoedd ar gyfer ymdrochi a hamdden, perchnogaeth tir a hawliau mynediad, anghenion o ran seilwaith ac arwyddion a'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen arnynt, iechyd a diogelwch, ac ansawdd dŵr.

Mae CNC a Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd wrth ddatblygu safleoedd peilot, a fydd yn caniatáu i dirfeddianwyr newydd ac awdurdodau lleol ddysgu sut i reoli dŵr ymdrochi yn ystod tymor a chaniatáu i waith cyfathrebu ac ymgysylltu â chwsmeriaid gael ei reoli'n effeithiol. Yn ystod y peilot, bydd prosesau a chymorth presennol yn cael eu gwerthuso a

bydd argymhellion yn cael eu darparu ar ddiwedd y tymor peilot, ar gyfer diwygiadau a chefnogaeth.

Mae mynediad hamdden i ddŵr mewndirol yn rhan o waith parhaus CNC i hyrwyddo hamdden cyfrifol, yn enwedig drwy gyhoeddi'r Cod Cefn Gwlad a'r Teulu o Godau cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r Teulu o Godau yn cynnwys 'cod glan y dŵr' a chodau ar gyfer canŵio, genweirio a nofio gwyllt. Mae CNC wedi cyhoeddi strategaeth hyrwyddo a chynllun gweithredu yn ddiweddar i arwain ein gwaith o hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad; mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid, yn ogystal â gweithio gyda Natural England i sicrhau bod y cod yn cael ei hyrwyddo i gynulleidfaoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae CNC hefyd yn cefnogi menter 'Edrych, Golchi, Sychu' y DU, sydd â'r nod o atal lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol.

Argymhelliad 13.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau nad yw'r oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad cyntaf ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn effeithio ar gynllunio a gweithredu mentrau rheoli perygl llifogydd. Dylai CNC fynd i'r afael ag unrhyw resymau dros yr oedi mewn cylchoedd adrodd yn y dyfodol er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu'n amserol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad Adran 18 yn adroddiad o gynnydd yn erbyn Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru, ac felly mae'n adroddiad ffeithiol ar berfformiad yn y gorffennol. Nid yw'n effeithio ar gynllunio a gynhyrchu mentrau rheoli perygl llifogydd, ac mae mentrau o'r fath yn tynnu ar wybodaeth arall (e.e. mapiau perygl llifogydd) sydd ar gael yn rhwydd. Disgrifir cynlluniau a mentrau perygl llifogydd mewn dogfennau eraill, megis cynlluniau a strategaethau rheoli perygl llifogydd yr Awdurdodau Rheoli Risg, ac nid yw'r oedi hwn wedi amharu ar y broses o gynhyrchu'r rhain.

Cytunwyd ar yr oedi gan bob parti, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac mae'n ddigwyddiad unwaith ac am byth. Fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ffactor allweddol oedd pwysau ymarferol ar y gweithlu (ar bob parti), ond hefyd bydd yn caniatáu mwy o amser i gynhyrchu cynnyrch gwell. Mae'r adroddiad Adran 18 ar y trywydd iawn i'w gyhoeddi yn hydref 2023.

Dylid nodi, er mai dyma'r adroddiad cyntaf ar ail gylch (2020) y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, y bu tri adroddiad blaenorol ar gylch cyntaf (2011) y strategaeth. Mae'r rhain ar gael ar wefan CNC, yn ogystal ag adroddiadau blynyddol CNC ar reoli perygl llifogydd.

Argymhelliad 14.

Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac effeithiolrwydd y cynllun gweithredu a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. Rhaid i CNC barhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol, a fframwaith cynhwysfawr o dargedau adfer byd natur i Gymru, a dylai adrodd yn rheolaidd i'r pwyllgor ar ei rôl yn hyn o beth.

Mae'r cynllun gweithredu sy'n deillio o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn cael ei ddatblygu i'w gyflawni gan 'Tîm Cymru'. Mae CNC yn arwain y gwaith o gyflawni rhai o'r camau gweithredu ond nid pob un ohonynt. Mae'r Gweinidog wedi cytuno i ddarparu diweddariadau bob chwe mis ar argymhellion y cynllun gweithredu. Cyhoeddwyd y diweddariad chwe mis cyntaf ar 22 Mai ac mae ar gael yma – Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth: diweddariad cynnydd Hydref 2022 i Ebrill 2023 | LLYW.CYMRU.

Darparodd CNC ddiweddariadau fel rhan o'r adroddiad hwn ac mae'n parhau i fynychu cyfarfodydd Grŵp Craidd yr Archwiliad Dwfn, a arweinir gan y Gweinidog ac sy'n cael eu cynnal bob tri mis, lle mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni'r camau gweithredu. Mae CNC yn parhau i ymgysylltu'n weithredol ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Atodiad 1. Lleoliadau CNC

Llinyn lleoliad	Gorffennol	Presennol	Dyfodol
Prentisiaethau	<p>Cynllun hirsefydlog o leoliadau gweithlu integredig yn astudio Fframwaith Lefel 2 yr Amgylchedd a Chadwraeth</p> <p>Rhaglen goedwigaeth yn astudio Fframwaith Lefel 3 Coed a Phren</p>	<p>6 x Prentis Gorfodi yn astudio Fframwaith Lefel 3 yr Amgylchedd a Chadwraeth</p>	<p>Gweithlu integredig x 12 yn astudio Fframwaith Lefel 2 yr Amgylchedd a Chadwraeth o fis Medi 2023 – yn dibynnu ar gyllid</p> <p>Datblygu rhaglenni pellach, yn dibynnu ar gyllid</p>
Addysg uwch	<p>Cynigir lleoliadau gweithrediadau coedwig yn flynyddol ar gyfer hyd at bum myfyriwr rhyngosod sy'n astudio gradd mewn Coedwigaeth a Rheoli Tir</p> <p>Cyfoeth Naturiol Cymru / Rydym yn chwilio am ein myfyrwyr Coedwigaeth nesaf – ydych chi am roi cynnig arni?</p> <p>Cyfle lleoliad gyda'r tîm Monitro Arbenigol Morol – Plymio i gadwraeth forol: ar leoliad gyda #TîmCyfoeth (sharepoint.com) – a gynigiwyd ar gyfer 18 mis</p> <p>Blwyddyn 1 o bum myfyriwr Rheoli Llifogydd a Dŵr wedi'u lleoli drwy'r portffolio Rheoli Perygl Llifogydd</p>	<p>Cynigir lleoliadau gweithrediadau coedwig yn flynyddol ar gyfer hyd at bum myfyriwr rhyngosod sy'n astudio gradd mewn Coedwigaeth a Rheoli Tir</p> <p>Cyfoeth Naturiol Cymru / Rydym yn chwilio am ein myfyrwyr Coedwigaeth nesaf – ydych chi am roi cynnig arni?</p> <p>Cyfle lleoliad gyda'r tîm Monitro Arbenigol Morol – Plymio i gadwraeth forol: ar leoliad gyda #TîmCyfoeth (sharepoint.com) – a gynigiwyd ar gyfer 18 mis</p> <p>Blwyddyn 2 o bum myfyriwr Rheoli Llifogydd a Dŵr wedi'u lleoli drwy'r portffolio Rheoli Perygl Llifogydd</p>	<p>sef maes y mae mwy o rannau o'r busnes yn edrych iddo. Mae'n cefnogi'r brifysgol wrth ddarparu adnoddau staff gwerthfawr i CNC.</p> <p>Ariennir Gweithrediadau Coedwig am hyd at dair blynedd arall.</p> <p>Rydym mewn trafodaethau cynnar â Phrifysgol De Cymru am eu rhaglen Rhwydwaith75 Rhwydwaith75 Prifysgol De Cymru</p> <p>Potensial cyflogaeth yn y dyfodol gydag CNC ar gyfer lleoliadau rheoleiddio gwastraff</p>

		Recriwtiwyd 12 o leoliadau Rhaglen Diwygio Rheoleiddio Gwastraff ledled Cymru yn ddiweddar,	
Lleoliadau â thâl gyda chyllid allanol	Kickstart – 50 o rolau wedi'u cynnig a 24 wedi'u llenwi, wedi'u cynnal ledled Cymru a'r maes gwaith, gyda nifer yn sicrhau rolau parhaol ar ôl y cynllun.		Mynd ati i ymgysylltu ag amrywiaeth o gynlluniau i ganfod a ydynt yn addas.
Ymchwil	Lleoliadau ymchwil parhaus ar draws y sefydliad.	<p>Partneriaeth â Phlattform Amgylchedd Cymru. Hyfforddiant – epwales.org.uk</p> <p>Dyrannwyd £50K i ariannu lleoliadau PhD yn ystod 22/23.</p> <p>15 o gyfleoedd ar draws MSc a PhD ac mewn ystod amrywiol o bynciau, e.e. cynlluniau i gefnogi iechyd a llesiant y boblogaeth ac asesu gweithgarwch pysgota yng Nghymru</p>	<p>Parhau i dyfu'r maes hwn a chryfhau partneriaethau gyda phrifysgolion ledled Cymru a thu hwnt.</p> <p>Yn ystyried: Academi Wales a'ui 'Rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan'</p> <p>Datblygu partneriaeth â Phlattform Amgylchedd Cymru ynghylch anghenion tystiolaeth a chyngor gyrfaoedd.</p>
Profiad gwaith i fyfyrwyr	Oherwydd y pandemig, roedd diddordeb yn y llinyn hwn wedi dod i ben.	Lleoliadau haf 2023–26 yn cael eu cynnig i ddysgwyr 15 oed a hŷn ledled Cymru, gan gynnwys pysgodfeydd, canolfan ymwelwyr, rheoli tir, a hydrometreg a thelemetreg	Bydd cynllun lleoliadau haf 2023 yn cael ei werthuso gyda'r bwriad o ehangu'r cynnig y flwyddyn nesaf a thu hwnt.
Profiad gwaith	Cynigiwyd nifer o leoliadau i helpu'r rhai sy'n edrych am newid gyrfa, sydd wedi cynnwys cyn-filwyr a		Maes y gellir ei addasu a'i ddatblygu yn ôl yr angen.

	Rhaglen Esgyn Llywodraeth Cymru		
Gwirfoddolwyr	Rhaglen wirfoddoli barhaus i ddarparu cymorth ar gyfer cychod a phlymwyr ac ar y glannau	20 o wirfoddolwyr cefnogi cychod, plymwyr a'r glannau yn Ne-orllewin Cymru Cynllun Gŵyr – 12 o wirfoddolwyr yn gweithio ar reoli tir cadwraeth cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwirfoddolwr Gŵyr CNC	Llawer o botensial ar gyfer mwy o gynlluniau ledled Cymru. Sgyrsiau cynnar gyda'r Gwasanaeth Prawf.

Workstream 1: Service Level Agreements



Service Level Agreements developed



- Managed estate
- Enabling tree planting
- Water Quality
- New Control of Agricultural Pollution Regulations
- Incident Management & Enforcement
- Flood Risk Management
- Monitoring
 - Freshwater
 - Marine
 - Terrestrial

Approach to Service Levels

- Jointly developed an SLA template - keeping it simple
 - Descriptor, exclusions, objectives, output and input metrics (£ & people)
 - Three options:
 - Current service
 - Reduce service
 - Improve service
 - Opportunities for process improvement/ efficiency invest to save

SLA Summary Heatmap



Service	Current	Reduced 1	Improved 2	Improved 3	Improved 4
NRW Estate	Recommend				
Pollution Incident Management			Recommend		
Enforcement			Recommend		
Agri Pollution Regulations				Recommend	
Water Quality			Recommend		
Flood Management					
Enabling Tree Planting			Recommend		
Monitoring – Freshwater			Recommend		
Monitoring – Marine			Recommend		
Monitoring - terrestrial			Recommend		

Commitment to additional SLAs – Potential list



- Biodiversity – including inland fisheries
- Marine
- Water Resources
- Air
- Sustainable land management scheme
- Area Statements/PSBs
- Climate/decarbonisation
- Development Planning Advice Service

SLA Summaries



Pollution Incident response SLA

Scope

- NRW's pollution incident response activities

Service level	Outputs
Current	Assessment of 8000 reports of environmental incidents, response to 1400 high risk incidents. Operation of 24/7/365 incident response service
Reduced Option 1	Raise threshold of high impact and/or stop all work on lower impact incidents and/or reduce out of core hours activities.
Improved Option 2	As current + address knock-on impact on other core activities of responding to incidents
Improved Option 3	As 2 + fill gaps in current service provision + invest in preventative work
Improved Option 4	As 3 + and lower threshold of response to include a proportion of low impact incidents, and/or investigate more lower impact incidents

Budget and Risks



	Current	Reduced Option 1	Improved Option 2	Improved Option 3	Improved Option 4
Staff (FTE)	48*, plus 38 **	48	86	106	126
Budget	£2.1m*, plus £1.5m**	£2.1m****	£3.6m***	£4.4m***	£5.2m***

*core planned staff resource/budget funded from incident management allocations

** unplanned staff resource/budget from environment and regulatory teams

*** fully from incident management allocations, reallocating £1.5m back to env/reg effort (so in reality costing an additional £1.5m)

**** £1.5m reallocated back to env/reg work and not replaced by incident budget (so in reality costing an additional £1.5m)

Reduced Service Risks

- Significantly more pollution impacts, on health, environment, economy
- Significant reputational risks to WG and NRW

Enforcement

Scope

- Enforcement responses across full range of NRW regulatory regimes to stop offending, restore/remediate or punish/deter

Service level	Outputs
Current	<i>1000+ enforcement responses (Advice, Warning, Formal Caution, Prosecution or Civil Sanction) following;</i> a. non-compliance with permit/consent/registration conditions (40%) and/or; b. illegal activity e.g. where no authorisation in place (60%) Variable enforcement activity & outcomes across regimes
Reduced Option 1 (nominal -20%)	Stop: More offending will receive lesser enforcement responses Reduce: Process improvement, support for regulatory reform e.g. wider ability to utilise civil sanctions
Improved Option 2 (nominal +20%)	As current + increased delivery against enforcement priorities, intelligence analysis & targeting organised/serious crime, process improvement, regulatory reform, improving systems & data architecture, collaboration with other enforcers

Budget and Risks

	Current	Reduce Option 1	Improved Option 2
Staff (FTE)	60	48	72*
Budget	£3.1M	£2.5m	£3.7M

* Proposed phasing 30%/70% over 2 years

Reduced Service Risks

- Erosion of public confidence in our enforcement capability
- Illegal/non-compliant activity likely to increase
- Support for other enforcement bodies (e.g. police, rural inspectorate) is withdrawn, weakening their enforcement capability
- Reduced capability to modernise our enforcement approach and tools
- NRW not delivering or supporting the climate and nature emergencies.

The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 (CoAPR)



Scope

Provision of applied evidence, compliance and enforcement, internal/external statutory advice and guidance in relation to the introduction and implementation. Note substantial increase in regulatory requirement from 1 Jan 2023

Service level	Outputs
Current	No inspection programme. Limited cross compliance (XC) inspections with WG. Incident related enforcement. Provision of limited advice and guidance. Agri Regulatory Campaign (ARC) former Dairy project
Reduced 1	As above, without XC inspections and ARC
Improved 2	In addition to current: a) Inspection programme high risk agri activities. 8 year return period b) Complex cross compliance inspections attend with WG
Improved 3	In addition to current a) <i>Inspection programme of high risk agri activities 4 year return period</i>
Improved 4	In addition to current: a) Inspection programme of high risk agri activities 4 year return period AND lower risk activities 8 year return period

Budget and Risks



	Current	Reduce 1	Improved 2 MVP	Improved 3	Improved 4 Ambition
Staff (FTE)	4.6 + 12.8 ACR	2	31.2	51.2	77.7
Budget	£360k	£0.1	£1.56m	£2.53m	£3.84m

Reduced Service Risks

- Unable to support the transitioning to measures into the Control of Agricultural Pollution Regulations.
- Increase in agricultural pollution incidents.

Water Quality

Scope

- **Our work to support and pursue the sustainable management of water**

Service level	Outputs
Current	<p>NRW Business Plan</p> <ul style="list-style-type: none">• working with WG to set and implement sustainable water management policy, develop and implement plans for improving the quality of our Water environment, working collaboratively with stakeholders• Over the last 18 months water quality issues have been the subject of intense public and political scrutiny, and we have had to significantly re-prioritise and adjust our workplans to respond, leading to minimal service or less in some other areas of our water quality work whilst we instigated SAC Rivers projects.
Reduced 1	<p>Stop: less than minimal level of service, cease critical projects such as SAC Rivers with consequences for development and programme for Government commitments (or decisions elsewhere on stopping other lower priority services elsewhere, with consequences to be defined).</p>
Improved 2	<p>*Preferred Option: As current + CSO roadmap commitments, new obligations including DWMPs, further work on SAC Rivers, chemicals and ramping up to deal with Pr24, support for Programme for Government commitments around Inland BW</p>
Improved 3	<p>As 2 + being in a position to replicate the improvements made to bathing waters around the coast inland, initiating a “decade of River Restoration”</p>

Budget and Risks



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

	Current	Reduced 1	Improved 2	Improved 3
Staff (FTE)	46.5*	37.2	131**	219
Budget	£2.2m*	£1.7m	£6.3m**	£10.3

* + 26 FTA posts temporarily funded by NRW, at a cost of £1,026,429 for 2022/23 plus £215k non-staff costs, (to support work on SAC rivers, some of our new or enhanced obligations and to support the start of a review of water quality work)

** proposed phased of 50% / 50% profile over 2 years.

Risks of a reduced service or not further enhancing current service

- Failure to deliver programme for Government commitments – inland BW, new homes
- SAC Rivers Project works stops affecting planning and development and Programme for Gov commitments around building of new homes.
- Water Quality status remains static or further declines, with consequences for biodiversity, ecosystem resilience and public services it provides.
- We are unable to respond to public and political concern around the status of Water Quality
- Reduced support leading to inability to support changes in legislation, policies etc

Flood Management

Scope

- All NRW flood risk management activities



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Service level	Outputs
Current	Manage 500km of defences, 4000 assets, operate, maintain and improve assets. Flood warning service for 130,000 customers, 190 locations. Regulate 380 reservoirs, operate and maintain 340 river gauges, deliver flood modelling and mapping, advise on flood risk. All on a prioritised risk basis (no or reduced activity at medium/lower risk sites)
Reduced 1	Stop: All community/resilience work, all collaborative work, enforcement work, reduce all other activities. Retreat to core high risk asset and basic flood warning services.
Improved 2	As current + address gaps in current service provision e.g. we are doing ~25% less than optimal maintenance now
Improved 3	As 2 + respond to climate change and improve service delivery (e.g. expand flood warning coverage)
Improved 4	As 3 + more on integrated catchment planning and community resilience and adaptation planning and delivery

Budget and Risks

	Current	Reduced 1	Improved 2	Improved 3	Improved 4
Staff (FTE)	357	321	429	501	573
Budget	£36m	£32m	£43m	£50m	£58m

Reduced Service Risks

- Flood risk increases drastically: more people and livelihoods at risk, including risk to life, more often;
- Significant social, health, economic and environmental impacts and disbenefits to Wales;
- Opportunities for multi-benefits and to respond appropriately to climate and nature emergency disappear;
- Huge reputational risks to WG and NRW

Managed Estate

Scope

- Welsh Government's Woodland Estate (WGWE) & National Nature Reserves
- Land Stewardship and Commercial Teams

Service level	Outputs
Current	As NRW Business Plan Climate change adaptation: upgraded infrastructure (roads, tracks, bridges, culverts, coal & waste tips over 40 years Market up to 750,000m ³ timber (<i>in line with current forestry staff capacity</i>)
Reduced Option 1	Stop: Formal recreation, visitor centres, new tracks Keep: Safety, liabilities and climate change programmes Reduce: All other programmes including biodiversity
Improved Option 2	As current + faster climate change adaptation through infrastructure improvements over 15 years. Increase commercial recreation opportunities
Improved Option 3	As 2 + enhanced biodiversity, recreation and safety work
Improved Option 4	As 3 + market up to 850,000m ³ timber (<i>in line with our plans to increase forestry staff skills & capacity</i>)

Budget and Risks

	Current	Reduced Option 1	Improved Option 2	Improved Option 3	Improved Option 4
Staff (FTE)	409.1	300.5	424.3	424.3	424.3
Budget	£51.7M	£41.5 M	£56.9M	£58.8M	£59.3M

Reduced Service Risks

- Lack of formal recreation facilities resulting in unmanaged visitors access across the estate, increasing the liabilities and cost of claims, reduction in health benefits, and knock-on implications to private enterprises reliant on NRW visitors experience.
- Stopping forest track building will lead to inability to access for future management, impacting delivery of climate resilience and nature recovery activities;
- Delaying forest track building leading to just in time delivery increasing risk of damage and costs if track is used before it beds in;
- Reduced support leading to inability to support changes in legislation, policies etc
- Increased risks of catastrophic failure of infrastructure, flood risk, large scale tree & habitat loss, soil erosion and peatland loss resulting from significant climatic events such drought, fire, windblow and pests/disease.

Enabling tree planting

Scope

- WG verification service (of WG grant funding for woodland creation)
- NRW Liaison Officers to support WG National Forest programme
- Other services to support woodland creation, including Plant!, implementing recommendations of the Ministerial Deep Dive, forestry regulation, and forestry policy, strategy, advice, guidance and evidence.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Service level	Outputs
Current	<ol style="list-style-type: none">1) Target 2,000 ha verified (£9M of grant funding)2) Delivery of 30 National Forest Sites by 2024/25 and Plant!3) All other areas delivered on time and within budget
Reduced 1	<ol style="list-style-type: none">1) Target 400 ha verified (£2M of grant funding).2) Delivery of 30 National Forest Sites by 2024/25 and Plant!3) Do minimum / stop work across all other areas.
Improved 2	<ol style="list-style-type: none">1) Target 4,500 ha verified (£20M grant funding)2) More workstreams, e.g. Sustainable Land Management Framework guidance, enhanced evidence capabilities.
Improved 3 (recommended)	<ol style="list-style-type: none">1) Target 7,500 ha verified (£30M grant funding)2) Delivery of 50 National Forest sites (i.e. plus 20)3) More workstreams, e.g. integrated spatial planning, green finance development, casework conflict resolution, skills

Budget and Risks

	Current	Reduced Option 1	Improved Option 2	Improved Option 3
Staff (FTE)	31.66	12.95	43.79	64.51
Budget	£2m	£0.8m	£2.6m	£3.6m

Note: NRW liaison officers to support WG's National Forest programme is a fixed 3 year level of service, and is common across Current, Reduced Option 1 and Improved Option 2. Improved Option 3 is an enhanced option, but has not been discussed with WG.

Reduced Service Risks

- NRW's role to promote and facilitate tree planting will be significantly reduced.
- WG's ambition to expand tree cover to deliver climate mitigation targets will not be delivered
- Lack of support across all areas so inability to respond to changes in legislation, policies etc

Freshwater Monitoring and Analysis



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Scope

- Chemical and biological monitoring of rivers, lakes, groundwaters and bathing waters
- Whole monitoring and analysis cycle – network/programme design, sample collection, laboratory analysis, data processing/validation, data management, data analysis/synthesis

Service level	Outputs
Current	Sampling and analysis of freshwaters is close to the absolute minimum level of compliance for most statutory monitoring and reporting duties. Only 63% of WFD water bodies are able to be classified. The frequency and spatial coverage of sampling is not sufficient to provide a comprehensive evidence base on state and trends of water quality in Wales.
Reduced 1	Stop: lab method development for new pollutants; national trend analysis of water quality parameters; evaluation of water quality improvement schemes Reduce: sampling and analysis of WFD water bodies (50% are classified), bathing waters and SAC rivers; quality assurance of monitoring data;
Improved 2	As current + increased sampling and analysis in WFD water bodies (75% are classified), bathing waters, SAC rivers, and new inland recreational water designations.
Improved 3	As 2 + additional sampling and enhanced data analysis / synthesis provides comprehensive evidence base. 100% of WFD water bodies classified; bathing waters monitored at WHO recommended frequency. Instrumented catchments allow real-time collection and communication of water quality parameters

Budget and Risks

	Current	Reduced 1	Improved 2	Improved 3
Staff (FTE)	102.8	82.2	126*	199
Budget	£5.5m	£4.5m	£6.7m*	£11m

* recognised need to go further to meet WG stated ambition (something between options 2 and 3)

Reduced Service Risks

- Failure to meet Programme for Government commitments to strengthen water quality monitoring and to increase inland recreational water designations
- Failure to collect sufficient samples to meet statutory monitoring and reporting duties
- Insufficient evidence to support SoNaRR and SMNR, and to inform our response to the nature and climate emergencies
- Reputational damage from having insufficient up-to-date evidence on the condition of freshwaters and trends in pollutants
- Likelihood of deterioration in the condition of the freshwaters due to a lack of evidence to inform management of pressures and impacts
- Enhanced public health risks resulting from fewer bathing water samples being taken
- Economic risk if bathing waters lose Blue Flag status due to insufficient sampling or inaccurate classification based on limited number of samples

Marine Monitoring

Scope

- Marine chemical, biological and physical monitoring focussed on Marine Protected Areas (MPAs) to provide evidence of environmental condition and trends.
- All components of the monitoring and analysis cycle – network and programme design, sample collection, laboratory analysis of samples, data processing and validation, data management, and data analysis and synthesis, MPA condition reporting

Service level	Outputs
Current	Only 5% of marine MPA features are monitored adequately, 17% partially. Condition reporting confidence moderate/poor. WFD monitoring just sufficient to provide data confident classification results for those elements at 'high' risk.
Reduced 1	Stop/Reduce by 15% - <5% MPA habitat features monitored. Poor confidence levels. Non-compliant with statutory reporting duties. WFD monitoring only just sufficient to provide data confident classification for the highest risk elements.
Improved 2	50% of MPA habitat features get monitored adequately. MPA condition reporting with good confidence. WFD monitoring at required level for all WFD elements and sufficient to achieve a data confident classification.
Improved 3	80% of MPA features get monitored adequately. MPA condition reporting with v. good confidence. All WFD waterbodies 'at risk'/ 'probably at risk' monitored for data confident classification.

Budget and Risks

	Current	Reduced 1	Improved 2	Improved 3
Staff (FTE)	24.3	20.8	42	57
Budget	£3.05*m	£2.6*m	£6.5*m	£10.4*m

Reduced Service Risks

**includes estimated lab costs*

- Insufficient sample data to meet statutory reporting duties (eg. WFD,HD)
- Lower confidence associated with assessments leading to increased potential for challenge when used as evidence inform permitting and policy decisions, or reporting on status/ classification.
- Level of uncertainty remains high therefore more cautious approach to permitting.
- Economic/ reputational risks from the resulting increased burden of monitoring/ survey falling on developers instead (eg marine renewables).
- Deterioration in condition of MPAs due to lack of evidence to inform management – climate and nature emergency. risks

Terrestrial Monitoring

Scope

- All components of the terrestrial monitoring & analysis cycle covering design, sampling, data processing, validation, data management, analysis, synthesis and reporting.



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales**

Service level	Outputs
Current	Monitor 30% of terrestrial protected site features within 5 a year cycle. Size & quality of evidence base will remain largely unchanged.
Reduced 1	Reduce service to 15% of terrestrial features. Failure to update condition data for c. 85% of features, leading to significant deterioration in our evidence base.
Improved 2	Monitor 60% of terrestrial features within SACs, SPAs & SSSIs over a 5-year programme cycle.
Improved 3	Monitor 90% of terrestrial features within SACs, SPAs & SSSIs over a 5-year programme cycle.

Budget and Risks



	Current	Reduced 1	Improved 2	Improved 3
Staff (FTE)	15.67	8	33	64
Budget	£0.72m	£0.37m	£1.98m	£3.71m

Reduced & Current Service Risks

- Lack of delivery - number of features lacking assessments will rise significantly.
- Poor resilience - due to limited skills, staff and infrastructure.
- Failure to innovate - reduced resources will prevent investment in innovation.
- Reputational damage - will have significant reputational issues given the current nature and climate emergencies.
- Environmental damage - risks deterioration in the condition of the Welsh environment.
- Reduced confidence in reporting -Weaker evidence will result in a fall in the confidence we can have in inferences